



DOGFEN GANLLAW AR GYDWEITHIO AR GYNLLUNIAU LLEIHAU FFOSFFORWS

25 IONAWR 2023

CYNNWYS

Y CYD-DESTUN	3
PWRPAS Y DDOGFEN GANLLAW YMA	3
CYNULLEIDFA'R DDOGFEN GANLLAW YMA	3
GWLYPTIROEDD TRIN ADEILEDIG	3
CATEGORÏAU CYDWEITHIO'R GTDG	4
Y BROSES SGRINIO	4
ESBONIO'R CATEGORÏAU	4
GTDG CATEGORI A	4
GTDG CATEGORI B	4
GTDG CATEGORI C	5
GTDG CATEGORI D	5
Y ROLAU A'R CYFRIFOLDEBAU AR GYFER CAM 1	7
BYRDDAU RHEOLI MAETHOLION	7
DŴR CYMRU WELSH WATER	7
SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI	7
CYFOETH NATURIOL CYMRU AC ASiantaeth YR AMGYLCHEDD	7
TREFNIADAU ARIANNU	8
BETH YW'R CAM NESAF?	8
DOGFENNAU AC ADNODDAU CYSYLLTIEDIG	9
DEDDFWRIAETH BERTHNASOL	9
ATODIAD	10
ATODIAD 1: MEMORANDWM DEALLTWRIAETH AR GYFER CAM 1	10
ATODIAD 2A: PROSES CAM 1	10
ATODIAD 2B: DIAGRAM O'R BROSES GYFAN	11
ATODIAD 3: PROFFORMA CYDWEITHIO	12
ATODIAD 4: CYFRANIADAU ARIANNOL	12

Y CYD-DESTUN

Amddiffynnir pob Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 fel y'u diwygiwyd (y Rheoliadau Cynefinoedd).¹

Ym mis Ionawr 2021, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) safonau newydd o ran ffosffadau ar gyfer ACA afonol yng Nghymru. Mae'r targedau hyn 50-80% yn uwch na'r terfynau blaenorol. Ffeindiodd asesiad o gydymffurfiaeth yn erbyn y safonau, a gyflawnwyd gan CNC, fethiant i gyflawni'r targedau yn afonydd Dyfrdwy, Cleddau, Gwy, Teifi ac yn fwyaf arwyddocaol, Wysg.

Mae lefelau uchel o ffosffadau mewn dŵr wyneb yn achosi ewtroffigedd ein hafonydd. Mae ewtroffigedd yn cael effaith andwyol ar ansawdd y dŵr ac ecoleg. Mae'r broblem yn gymhleth ac mae yna nifer o ffactorau'n cyfrannu ati. Mae un rhan o ddalgylch penodol yn wahanol i ddarn arall o ofon mewn dalgylch arall – ac mae'r atebion yr un mor gymhleth ac amlweddog â'i gilydd. Ar ei orau, gallai canolbwyntio ar un sector neu un safle â thargedau llymach, arwain at ddefnydd aneffeithlon o arian buddsoddi, ac ar ei waethaf, gallai olygu na cheir unrhyw welliant o bwys yn ein hafonydd neu'r cynefinoedd sy'n dibynnu arnynt.

Rydyn ni wedi ymrwmo'n llwyr i weithio mewn partneriaeth ag eraill i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella ansawdd afonydd, trwy reoli tir a dŵr mewn ffordd integredig. Mae hynny'n cynnwys cynorthwyo Byrddau Rheoli Maetholion a phartneriaid dalgylch fel y gellir cyflawni atebion ar y cyd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion niferus a chystadleuol yn ACA Cymru sy'n methu.

Yn dilyn gwaith i fodelu 'Dosbarthiad Ffynonellau' er mwyn clustnodi prif ffynonellau'r ffosffadau ar bob rhan o'r pump afon ACA sy'n methu, rydyn ni wedi cynhyrchu ein Rhaglen Ffosfforws fynegol, sy'n disgrifio'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n debygol o fod angen amod newydd ar eu trwydded ffosfforws i fynd i'r afael ag anghenion DCWW o ran cydymffurfiaeth. Felly, mae DCWW bellach mewn sefyllfa i weithio gyda phartneriaid dalgylch i ddatblygu neu hwyluso astudiaethau hyfywedd ar gyfer gwlyptiroedd trin adeiledig (CTW) er mwyn lleihau'r llwyth ffosfforws ymhellach. Rydyn ni wedi rhag-sgrinio ein GTDG; rhoddwyd 'categori cydweithio' i bob GTDG yn seiliedig ar amodau'r drwydded gyfredol ynghyd â'r buddsoddiad sydd ar y gweill at y dyfodol.

Mae'r cyfleoedd i gydweithio a drafodir yn y pecyn hwn yn canolbwyntio'n unswydd ar wlyptiroedd trin adeiledig at ddibenion lleihau maetholion, a gaiff eu bwydo gan ein helifion terfynol wedi eu trin. I gael gwybodaeth am gyfleoedd ehangach i gydweithio, ewch i'r tudalennau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff ar ein gwefan.

Mae'n bwysig nodi bod y cyfleoedd yma i gydweithio'n cael eu rhannu â phartneriaid o'r NMB cyn cyflawni'r ymarfer Adolygu Trwyddedau (RoP) dan arweiniad CNC, felly gallai'r categorïau newid. Ond nod y sgrinio o'r bron yw darparu pwynt cychwyn ar gyfer astudiaethau CTW â ffocws a chyfeiriad da.

PWRPAS Y DDOGFFEN GANLLAW YMA

Mae'r pecyn canllaw yma'n darparu manylion y cyfleoedd i gydweithio sydd ar gael yn ein GTDG i dynnu rhagor o ffosfforws o'r dŵr gwastraff. Mae'r ddogffen yn esbonio'r broses sgrinio rydyn ni wedi ei chyflawni, yn cyflwyno categorïau'r GTDG; ac yna'n cyflwyno'r cam nesaf yn y cydweithio, sy'n unigryw i bob categorïo o GTDG.

CYNULLEIDFA'R DDOGFFEN GANLLAW YMA

Mae'r pecyn hwn ar gyfer NMBs a'r holl sefydliadau sy'n cael cymorth yr NMB, i'w cynorthwyo i gyflawni asesiad[au] hyfywedd ar wlyptir[roedd] trin adeiledig (CTW), a gaiff eu bwydo gan elifion terfynol DCWW ar ôl eu trin.

GWLYPTIROEDD TRIN ADEILEDIG

Mae Gwlyptiroedd Trin Adeiledig (CTW) yn gweithio trwy gymryd elifion wedi eu trin yn rhannol a'u bwydo trwy gyfres o byllau rhyng-gysylltiedig wedi eu plannu â rhywogaethau gwlyptir brodorol fel gellysg, hesg, brwyn, melyn y gors a berw'r dŵr. Mae CTW yn cael eu creu i efelychu'r prosesau ffisegol, cemegol a biolegol sy'n digwydd mewn gwlyptiroedd naturiol.

Mae'r planhigion gwlyptir yn 'glanhau' yr elifiant trwy broses o bio-gronni, sy'n helpu i leihau'r ffosffadau a sylweddau eraill. Mae prosesau trin dŵr cyfredol DCWW eisoes yn cael gwared ar y rhan fwyaf o'r sylweddau hyn yn unol â'n trwyddedau amgylcheddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Ond gall gwlyptiroedd ddarparu 'triniaeth drydyddol' bellach. Diolch i'w natur fodwlar, sy'n cynnwys cyfres o gelloedd rhyng-gysylltiedig fel rheol, maen nhw'n opsiwn do ar gyfer atebion cydweithredol, lle bo ar nifer o bartneriaid angen budd y gellir adrodd arno.

Yn ogystal â dod â manteision ymarferol o ran ansawdd dŵr, maen nhw'n ased anferth o ran bioamrywiaeth ac yn creu cynefinoedd gwerthfawr ar gyfer bywyd gwyllt lleol.

Caiff y CTW y mae'r ddogffen hon a'r prosesau ategol yn cyfeirio atynt, eu bwydo gan lif o elifion terfynol wedi eu trin o GTDG DCWW. Cânt eu hariannu a byddant mewn perchnogaeth trydydd parti yn llwyr neu'n rhannol.

1. Yn wahanol i GTDG sy'n gofyn am derfyn TP, mae'r safle eisoes yn bodloni terfynau'r drwydded newydd neu bydd yn gwneud hynny erbyn y dyddiad rheoliadol a benwyd.

CATEGORÏAU CYDWEITHIO'R GTDG

Rydyn ni'n darparu rhestr o'n GTDG at ddibenion cydymffurfiaeth pob dalgyrch â gofynion yr ACA a'r anghenion o ran niwtraliaeth maetholion. Rydym ni wedi gwneud hyn trwy amlygu ymhle y mae modd lleihau ffosfforws ymhellach.

Y BROSES SGRINIO

I gyflymu'r broses cydweithio, rydym ni wedi rhag-sgrinio ein GTDG. Dyrannwyd 'categori cydweithio' i bob GTDG (A, B, C neu D). Mae gan bob un o'r categorïau raddfa amrywiol o gydweithio posibl, y seiliedig ar:

- Derfynau a pharmedrau cyfredol y trwyddedau
- Ein Rhaglen Ffosfforws fynegol dros y 2 AMP nesaf (felly terfynau newydd y trwyddedau).
- Y tebygolrwydd y bydd angen buddsoddiad i gyflawni'r terfynau yna (yn dibynnu a yw'r GTDG eisoes yn trin yn unol â'r terfyn newydd).
- Deinameg y GTDG (er enghraifft, y boblogaeth gyfatebol y mae'r GTDG yn ei gwasanoethu, a yw'r GTDG yn derbyn unrhyw elifiant masnachol, lefel gyfredol y driniaeth).

Mae'r uchod wedi bod yn seiliedig ar ddadansoddiad desg o'r data a'r egwyddorion sgrinio a gynhyrchwyd gan ein partneriaid academaidd, a dirnadaeth y diwydiant o berfformiad y gwlyptiroedd a'u gallu i gyflawni'r dasg. Ein rhaglen samplu gyfredol, ein dealltwriaeth am berfformiad trin cyfredol y safleoedd a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau polisi cyfredol sy'n llywio'r categorïau hyn. Os bydd unrhyw beth uchod yn newid – er enghraifft os caiff y canllawiau polisi eu diweddaru – cyn, yn ystod neu ar ôl cyflawni'r astudiaeth hyfywedd, gallai hynny effeithio ar raglen fuddsoddi DCWW, ac felly bydd categori'r GTDG yn newid hefyd, ynghyd â natur y cydweithio. Mae'r categorïau yn agored i newid hefyd yn sgil RoP CNC.

ESBONIO'R CATEGORÏAU

Ceir crynodeb pellach o'r categorïau yn nhabl 1 isod, ac fe'u hategir gan ddiagramau sylfaenol er mwyn helpu i osod y cyd-destun. Mae'r adran hon yn cynnig naratif byr ar gyfer pob categori.

GTDG CATEGORI A

GTDG Categori A: Y meini prawf cymhwyster

- Mae gan DCWW derfyn o $\leq 4\text{mg/l}$ o ran Cyfanswm y Ffosfforws ar hyn o bryd
- Bydd gan DCWW derfyn o $\leq 4\text{mg/l}$ o ran Cyfanswm y Ffosfforws yn AMPs y dyfodol
- Disgwylir i'r llif cyfredol neu yn y dyfodol gynyddu i gyfateb â'r boblogaeth y mae'r GTDG yn ei wasanoethu dros ben y llif addas y disgwylir i'r gwlyptir ddarparu ar ei gyfer
- Mae'r GTDG yn derbyn elifiant masnachol sy'n cynnwys rhai sylweddau sy'n debygol o niweidio cynefin gwlyptir, neu wneud y broses drin arferol y gall gwlyptir ei ddarparu yn aneffeithlon.

GTDG Categori A: Yr Effaith ar Gydweithio

- Nid oes modd cyflawni gostyngiad pellach yng Nghyfanswm y Ffosfforws trwy CTW
- Nid oes cyfleoedd ar gael i gydweithio ar y safle hwn i sicrhau gostyngiad pellach yn y TP
- Ni ellir prosesu unrhyw brofformâu na cheisiadau i gydweithio ar gyfer y GTDG hyn

GTDG CATEGORI B

GTDG Categori B1: Y meini prawf cymhwyster

- Mae gan DCWW derfyn o $>4.1\text{mg/l}$ o ran Cyfanswm y Ffosfforws ar hyn o bryd
- Bydd gan DCWW derfyn o $>4.1\text{mg/l}$ o ran Cyfanswm y Ffosfforws yn AMPs y dyfodol
- Bydd angen buddsoddi er mwyn i DCWW gyflawni'r terfyn o ran Cyfanswm y Ffosfforws yn AMPs y dyfodol²

GTDG Categori B1: Yr Effaith ar Gydweithio

- Mae yna botensial ar gyfer lleihau Cyfanswm y Ffosfforws ymhellach
- Mae cyfleoedd i gydweithio ar gael yn y GTDG yma
- Gallai'r cydweithio yma gynnwys CTW sydd mewn cydberchnogaeth (â gwahanol gelloedd ym mherchnogaeth gwahanol sefydliadau, ond yn rhan o'r un gwlyptiroedd rhyng-gysylltiedig)
- Bydd y ddau barti yn cael gostyngiad y gellir adrodd arno yn y TP trwy'r CTW
- Gallai'r GTDG Categori B newid. Mae'r categorïau'n seiliedig ar ddata samplu cyfredol. Gall safleoedd newid i fod yn safleoedd categori D wrth i'n dealltwriaeth am berfformiad y safle gynyddu wrth ddadansoddi cwrs y llwybr teithio
- Bydd effaith y newid categori yma (o B i D) yn golygu bod y gwlyptiroedd yn newid o fod yn CTW mewn perchnogaeth ac sy'n cael eu hariannu ar y cyd, i fod yn CTW sydd mewn perchnogaeth ac yn cael ei ariannu'n llwyr gan 3ydd parti

2. Yn wahanol i GTDG sy'n gofyn am derfyn TP, mae'r safle eisoes yn bodloni terfynau'r drwydded newydd neu bydd yn gwneud hynny erbyn y dyddiad rheoliadol a bennwyd.

GTDG Categori B2: Y meini prawf cymhwyster

- Mae angen i DCWW fuddsoddi mewn ansawdd dŵr ar gyfer AMP yn y dyfodol (o fewn terfynau penodol), nad yw'n gysylltiedig â Ffosfforws³
- Mae gan yr hyn sy'n llywio AMP DCWW at y dyfodol y potensial i'r CTW ddelio ag ef (yn seiliedig ar y llif hysbys a deinameg y GTDG ymysg yr amrywiolion eraill)

GTDG Categori B2: Yr Effaith ar Gydweithio

- Disgwylir i CTW fod yn rhan o'r ateb sydd ei angen i fynd i'r afael â'r hyn sy'n effeithio ar ansawdd dŵr DCWW neu'r cyfan ohono
- Gellid dylunio ateb y CTW i leihau Cyfanswm y Ffosfforws hefyd
- Mae angen cytuno ar hyfywedd aml-gwmpas yn y cyfarfod cychwynnol er mwyn deall a all y CTW fynd i'r afael â gofynion y ddau sefydliad ai peidio
- Gall y cydweithio yma gynnwys CTW mewn cydberchnogaeth (â gwahanol gelloedd yn eiddo i wahanol sefydliadau, gyda therfynau clir ar gyfer cydymffurfiaeth, ond yn rhan o'r un gwlyptiroedd cydgysylltiedig)
- Mae DCWW yn cyflawni'r gostyngiad gofynnol yn y paramedrau o ran ansawdd dŵr, a'r sefydliad partner yn cyflawni gostyngiad mewn TP o'r un CTW

GTDG CATEGORI C

GTDG Categori C: Y meini prawf cymhwyster

- Mae gan DCWW lywiwr ar gyfer AMP8 nad yw'n gysylltiedig â Ffosfforws
- Mae DCWW yn disgwyl bod ag ateb confensiynol i fynd i'r afael â'r gwelliannau mewn ansawdd dŵr (wedi eu pennu ar sail y gostyngiad % sydd ei angen, neu'r dadansoddiad o gwr y llwybr).

GTDG Categori C: Yr Effaith ar Gydweithio

- Bydd gostyngiad pellach yn y TP ar gael yn dilyn buddsoddiad AMP DCWW yn y dyfodol
- Er y bydd ar y ddau sefydliad angen atebion ar wahân
- Effaith hyn, a'r gwahaniaeth rhwng GTDG Categori C a GTDG Categori D yw taw'r paramedrau o ran llif yn y dyfodol ac ansawdd y dŵr yw'r pethau y dylid seilio hyfywedd arnynt yn hytrach na'r paramedrau cyfredol

GTDG CATEGORI D

GTDG Categori D: Y meini prawf cymhwyster


- Yn seiliedig ar y rheoliadau a'r polisiau cyfredol, nid yw DCWW yn disgwyl y bydd angen buddsoddi dim yn y dyfodol (nawr nac yn AMPs y dyfodol) oherwydd perfformiad cyfredol y safleoedd, % y twf a ragwelir, y llif a/neu leoliad y GTDG yn y dalgylch

GTDG Categori D: Yr Effaith ar Gydweithio

- Gall partneriaid ddatblygu'r asesiadau hyfywedd, gan ddefnyddio'r paramedrau cyfredol a ddarperir yn y Pecyn Gwybodaeth am Asedau GTDG
- Bydd DCWW yn helpu i drosglwyddo elfion yn unig, gostyngiad llwyr yn y TP wedi ei ddarparu gan y CTW yw mantais adroddadwy'r trydydd parti.

3. Er enghraifft targed i leihau amonia, neu baramedr arall o ran ansawdd dŵr

CATEGORI	PENNAWD ESBONIADOL	BUDD I DCWW	BUDD I'R 3YDD PARTI	RÔL YR NMB	RÔL DCWW	RÔL Y 3YDD PARTI
A	Mae/Bydd DCWW wedi/yn pennu terfyn P. Does dim gostyngiad yn bosibl. Dim cydweithio'n bosibl	Gostyngiad o 100% yn y TP at anghenion rheoliadol DCWW	-	-	Unig berchennog y cynllun	-
B1	Bydd terfyn P gan GTDG DCWW, ond mae yna botensial ar gyfer gostyngiad pellach. Cyfle i gydweithio.	Mae angen cyflawni'r gostyngiad yn y TP erbyn y dyddiad targed	O derfyn trwydded FE newydd DCWW (xmg/l) i derfyn gostyngiad isaf y CTW	Darparu cydsyniad ar gyfer perchnogaeth, llywodraethiant ac i ariannu'r gostyngiad yn y TP (y tu hwnt i ostyngiad DCWW) yn berthynol i wahanol anghenion y dalgylch.	Cydberchennog y gwlyptiroedd	Cydberchennog y gwlyptiroedd
B2	Bydd gan GTDG DCWW llywiwr nad yw'n P (WQ neu dwf), ac mae yna botensial am ateb sy'n fuddiol i'r naill a'r llall. Cyfle i gydweithio.	Llywiwr nad yw'n P wedi ei gyflawni erbyn y dyddiad targed	Gostyngiad o 100% yn y TP	Darparu cydsyniad ar gyfer perchnogaeth, llywodraethiant ac i ariannu'r gostyngiad yn y TP (y tu hwnt i ostyngiad DCWW) yn berthynol i wahanol anghenion y dalgylch.	Cydberchennog y gwlyptiroedd	Cydberchennog y gwlyptiroedd
C	Mae gan DCWW llywiwr yn AMP8 (nad yw'n gysylltiedig â P). Bydd gan DCWW ateb confensiynol 'ar y safle'. Ond mae gostyngiad pellach mewn P ar gael. Atebion ar wahanol.	Llywiwr nad yw'n P wedi ei gyflawni erbyn y dyddiad targed	Gostyngiad o 100% yn y TP	Darparu cydsyniad ar gyfer perchnogaeth, llywodraethiant ac i ariannu'r gostyngiad yn y TP (y tu hwnt i ostyngiad DCWW) yn berthynol i wahanol anghenion y dalgylch.	Partner Hwyluso	Unig berchennog y gwlyptiroedd
D	Nid oes buddsoddiad NEP ar y gweill yn GTDG DCWW. Cyfle i gydweithio.	Dim gostyngiad i DCWW / hawliwyd neu mynnwyd llywiwr yn y GTDG yma.	Gostyngiad o 100% yn y TP	Darparu cydsyniad ar gyfer perchnogaeth, llywodraethiant ac i ariannu'r gostyngiad yn y TP (y tu hwnt i ostyngiad DCWW) yn berthynol i wahanol anghenion y dalgylch.	Partner Hwyluso	Unig berchennog y gwlyptiroedd



Ffigur 1 Esoniad ar ffurf diagram o'r categorïau cydweithio. Mae'n bosibl y bydd yna fân-amrywiadau i'r rhain wrth i ni ddysgu rhagor am ddeinameg y safle a'r cydweithio.

Y ROLAU A'R CYFRIFOLDEBAU AR GYFER CAM 1

Dylai gweithio mewn cydweithrediad a rheoli dalgylchoedd ill dau fod yn hyblyg ac yn iteraidd. Bydd yna fân-wahaniaethau rhwng pob categori o GTDG, a phob astudiaeth hyfywedd gyda phob sefydliad. Ond er mwyn creu'r bartneriaeth orau bosibl, rydyn ni wedi cyflwyno templed ar gyfer Memorandwm Dealltwriaeth ac 'Egwyddorion Cydweithio'. Ychydig o werth sydd yna i fod â chontractau cymhleth ar y cam cynnar yma yn y broses hyfywedd, ond bydd eu hangen os bydd y cynlluniau'n datblygu i'r cam dylunio a chyflawni. Cyflwynir y rolau a'r cyfrifoldebau manwl yn y Memorandwm Dealltwriaeth sy'n cyd-fynd â'r pecyn hwn. Mae'r adran isod yn rhoi manylion y lefelau a'r cyfrifoldebau lefel uchel ar gyfer cydweithio.

BYRDDAU RHEOLI MAETHOLION

Mae gan bob dalgylch anghenion cymhleth a chystadleuol, er enghraifft blaenoriaethu 'credydau gwrthbwysu' ar gyfer datblygiadau neu ganolbwyntio ar gydymffurfiaeth afonydd a gwelliannau ecolegol; yn ogystal, rhaid nodi taw un rhan yn unig o'r ateb yw'r CTW. Mae mynd i'r afael â diffygion pob afon o ran maetholion yn gofyn am lywodraethu annibynnol a strategol a throsolwg o'r dalgylch cyfan. Yr NMBs sydd yn y sefyllfa orau i ganfod sut mae'r gostyngiad mewn ffosfforws yn cael ei ddefnyddio, pwy fydd yn elwa ohono, a sut mae'r gostyngiad yn cael ei reoli a'i berchen wrth symud ymlaen. Ein cynnig ni felly yw:

- Taw'r NMBs yw'r lle cyntaf i droi o ran y cynigion lliniaru
- Taw'r NMBs fydd yn cymeradwyo sut mae dalgylchoedd yn cael eu cymeradwyo⁴
- Taw'r NMBs fydd yn cydbwysu anghenion cystadleuol (e.e. gydymffurfiaeth afonydd â gwrthbwysu datblygiadau)
- Taw'r NMBs sy'n pennu'r ymrwymadau ar gyfer gwelliannau fesul ateb (e.e. gwelliannau o o leiaf 20% i'r afon ar gyfer unrhyw gynllun credydau neu wrthbwysu, a hynny'n seiliedig ar i ba raddau y mae'r afon yn rhagori ar gydymffurfiaeth)

Ni allwn fwrw ymlaen â'ch cynnig Profforma i Gydweithio heb fod eich NMB yn cefnogi'ch cais.

DŴR CYMRU WELSH WATER

Bydd DCWW yn gyfrifol am rag-sgrinio ein GTDG (fel y trafodwyd uchod) ac am ddarparu data perthnasol er mwyn caniatáu i chi ddatblygu eich hyfywedd. Bydd DCWW yn gyfrifol hefyd am ddilyn yr Egwyddorion Cydweithio a gyflwynir yn y Memorandwm Dealltwriaeth. Os bydd y CTW yn symud ymlaen i gam 2, caiff y rolau a'r cyfrifoldebau eu diffinio yn ôl categori'r GTDG.

SEFYDLIAD TRYDYDD PARTI

Yng ngham 1, y trydydd parti yw'r sefydliad sy'n cychwyn y cydweithio ac yn cyflwyno'r cais am i elifion terfynol DCWW fwydo'r CTW. Yn yr achos hwn, awdurdod cynllunio lleol (LPA) neu'n bartner sy'n gorff anlywodraethol amgylcheddol (ENGO) fydd hwn yn fwy na thebyg. Y trydydd parti fydd yn gyfrifol am arwain ac ariannu'r astudiaeth hyfywedd. Byddan nhw'n gyfrifol am ddilyn yr Egwyddorion Cydweithio a gyflwynir yn y Memorandwm Dealltwriaeth.

CYFOETH NATURIOL CYMRU AC ASiantAETH YR AMGYLCHEDD

CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r rheoleiddwyr amgylcheddol ar gyfer ein hardal weithredu. Nhw sy'n gyfrifol am gynghori'r awdurdodau cynllunio lleol ar oblygiadau amgylcheddol datblygiadau arfaethedig o fewn afonydd ACA, ac am gynhyrchu canllawiau a rheoliadau polisi; a hynny gan roi sylw arbennig i'r goblygiadau o ran ansawdd dŵr. Nhw sy'n gyfrifol hefyd am ddarparu'r drwydded ar gyfer y CTW os bydd yn parhau i'r cyfnod cyflawni.

4. Bydd angen cael caniatâd yr NMB cyn i 3ydd parti gyflwyno cais i gydweithio i DCWW i ddefnyddio ein helifion terfynol ar gyfer CTW.

TREFNIADAU ARIANNU

O ran cam 1, y sefydliad trydydd parti sydd wedi cyflwyno'r Profforma Cydweithio fydd yn gyfrifol am ariannu camau hyfywedd y CTW; waeth beth yw Categori'r GTDG. Mae hynny am nad yw ein Rhaglen Ffosfforws wedi cael cydsyniad a chymeradwyaeth ein rheoleiddwyr amgylcheddol ac economaidd eto. Ni allwn wario arian y cwsmeriaid nes bod y broses honno wedi ei chwblhau, a nes bod yr holl gynlluniau wedi cael eu cadarnhau. Rydyn ni'n rhannu ein Rhaglen Ffosfforws fynegol cyn y cyfnod cymeradwyo yma er mwyn yr amgylchedd ac er budd onghenion datblygu. Bydd hyn yn caniatáu i eraill yn y dalgylch gyfrannu at ateb wedi ei dargedu.

Os bydd y cynllun yn symud ymlaen i'r camau diweddarach, bydd rhaniad y costau'n dibynnu ar gategori'r cynllun. Trafodir yr egwyddorion ariannu yma yn y cyfarfod Cychwyn Cydweithio, ond er mwyn caniatáu i'ch sefydliad gynllunio, cyflwynir dull lefel uchel o weithredu yn atodiad 5. Ceir crynodeb ohono isod.

Bydd yna ddwy gydran ar wahân i'r holl gynlluniau CTW. Cydran un yw trosglwyddo'r elifion terfynol o'u llwybr cyfredol a'u lleoliad rhyddhau i fewnfa'r CTW arfaethedig. Cydran dau yw'r CTW ei hun. Gellir crynhoi'r rhain fel y rhai 'llwyd' a'r rhai 'gwyrd'. Mae'r gydran 'llwyd' (Trosglwyddo'r Elifion Terfynol) yn gofyn am waith peirianeg sifil, asesiadau hydrologig a modelu. Ar gyfer y cydrannau 'llwyd' yma, rhaid i DCWW weithio gyda phartneriaid fframwaith y mae'n ymddiried ynddynt am fod gennym fanylebau penodol o ran arolygu a dylunio, ac oherwydd y rhwymedigaethau iechyd a diogelwch wrth weithio ar ein safleoedd. Am hynny, DCWW fydd yn arwain y cyfnod 'llwyd' yma ar gyfer pob CTW.

Yn achos GTDG Categori B1 a Chategori B2, ni fydd yn ariannu'r elfennau 'llwyd' yma. Yn achos GTDG Categori C a D, y trydydd parti fydd yn ariannu'r elfennau 'llwyd' yn eu cyfanrwydd, ond DCWW fydd yn arwain y dull o weithredu o hyd, gan weithio gyda phartneriaid rydym yn ymddiried ynddynt. Codir tâl ar sail cost i chi am y gwaith wedyn.

O ran y cydrannau 'gwyrd' (sef hyfywedd, dylunio, mesur ac adeiladu'r gwlyptiroedd), bydd y partner[iaid] a ddewisir yn dibynnu ar gategori'r cynllun. Os yw hi'n gynllun cydweithredol (Categori B1 neu B2) yna bydd angen i DCWW a'r sefydliad partner gytuno ar bartneriaid addas yn seiliedig ar ein Safonau Caffael a'n protocolau. Dim ots pwy yw'r partner, y trydydd parti fydd yn ariannu'r cam gwlyptir yma yn ei gyfanrwydd.

Daw'r ddwy gydran – y 'llwyd' a'r 'gwyrd' – i gyfanswm cost cymaradwy, ar sail profiad o gynlluniau eraill.

O ganlyniad, yn achos y CTW cydweithredol (categori B1 a B2), bydd cyfraniadau DCWW a'r trydydd parti yn gymharol gyfartal. Bydd y naill sefydliad a'r llall yn defnyddio dull cyfrifo llyfr agored yn ôl y diffiniad a roddir yn y MOU. Rhoddir rhagor o fanylion am hyn wrth i'ch CTW symud ymlaen i'r Cyfarfod Cychwyn.

BETH YW'R CAM NESAF?

Mae Atodiad 3 yn rhoi trosolwg o'r holl gamau yn y cydweithrediad yma os bydd y CTW yn symud ymlaen i'r cam yna.

Y camau nesaf uniongyrchol ar gyfer cam 1 yr asesiad o hyfywedd CTW yw:

1. Trafod eich cynnig gyda'ch Bwrdd Rheoli Maetholion perthnasol. Mae hi'n bwysig bod eich cynnig yn cyd-fynd ag ymateb dalgylch trosfwaol.
2. Pan fyddwch wedi cael cydsyniad yr NMB, darllenwch trwy'r MOU.
3. Os ydych chi'n hapus i fwrw ymlaen, llenwch y Profforma Cydweithio (gweler y linc yn yr atodiad).
4. Cyflwynwch y Profforma Cydweithio.
5. Bydd cydweithwyr yn DCWW yn adolygu eich cais, a byddwn ni'n ymateb i'ch cais cyn pen 4 wythnos, yn seiliedig ar ein hangen dangosol ar y safle.
6. Trefnir cyfarfod cydweithio cychwynnol, dan ofal DCWW. Bydd y cyfarfod yma'n trafod egwyddorion y cydweithio, y trefniadau ariannu a'r manylion ychwanegol a gyflwynir yn y MOU, er mwyn cadarnhau'r trefniadau gweithio a rhannu data ar gynydd. Categori'r GTDG fydd yn pennu agenda'r cyfarfod hwn.
7. Wedyn bydd DCWW yn paratoi pecyn penodol ar gyfer yr asedau, sy'n cynnwys manylion am y GTDG y mae gennych ddi-ddordeb ynddynt er mwyn sicrhau y cyflawnir astudiaeth hyfywedd fanwl ar y GTDG penodol.

Gweler atodiad 2a am ragor o fanylion am y gwahanol gamau sy'n ffurfio hyfywedd Cam 1. Ac Atodiad 2b i ddeall y camau dilynol os bydd y GTDG yn llwyddo yn yr asesiad o hyfywedd.

DOGFENNAU AC ADNODDAU CYSYLLTIEDIG

1. Aseiad CNC o Gydymffurfiaeth ACA Cymru yn erbyn y Targedau Ffosfforws
2. Data Asesu Ffosfforws ACA CNC
3. Cyngor CNC i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd sy'n sensitif i ffosfforws
4. Pecyn gwybodaeth a thystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Daclo Llygredd Ffosfforws mewn Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (Gorffennaf 2022)
5. Datganiad o Sefyllfa DCWW ar ACA
6. Dogfen Gwella ansawdd ein dŵr afonol DCWW

DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (fel y'u diwygiwyd).
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 2, Gorffennaf 2010)
- Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol y Cyngor Ewropeaidd (91/271/EEC).
- Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y Cyngor Ewropeaidd (2000/60/EC)
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 1992
- Cyfarwyddeb y Cyngor ar Gadwraeth Adar Gwyllt 1979
- Cyfarwyddeb y Cyngor ar Gadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt 1992
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Draenio Tir 1991
- Deddf Gwarchod Moch Daeor 1992
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

ATODIAD

ATODIAD 1: MEMORANDWM DEALLTWRIAETH CAM 1.

Mae Dŵr Cymru wedi darparu templed ar gyfer Memorandwm Dealltwriaeth i gwmpasu Cam 1 o'r cydweithrediad yma. Caiff hyn ei drafod yn fanylach yn y cyfarfod cychwynnol.

ATODIAD 2A: PROSES CAM 1

Mae pob cam yn gwrs sy'n cynnwys nifer o wahanol gamau. Mae'r isod yn cynnig fersiwn wedi ei symleiddio o'r broses gyfan, os bydd y CTW yn datblygu i'r camau hyn.

RHAN CAM 1	PWRPAS	SEFYDLIAD ARIANNU	SEFYDLIAD ARWEINIOL
Rhannu Rhaglen Ffosfforws DCWW gydag NMB	Cyfleu cyfleoedd pellach i leihau ffosfforws ym mhob dalgylch	DCWW	DCWW
Adolygu'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio a lliniaru ar raddfa dalgylch	To ensure catchment level assessment of mitigation based on competing river needs	d/b	NMB
Cadarnhau perchennog ac ariannwr y CTW, cael cefnogaeth yr NMB, llenwi'r profforma ar gyfer Rhan 1	To provide clear audit trail of which partner is 'owning' and funding the phosphorus reduction	d/b	cynigiwr y CTW
DCWW yn prosesu'r Profforma Cais Rhan 1	I gynnal llywodraethiant ac olrhain cynlluniau	d/b	DCWW
Datblygu cyfarfod Cychwynnol Rhan 1 (gan rannu pecyn ac agenda'r cyfarfod ymlaen llaw)	Sefydlu paramedrau hyfywedd, manylebau/ safonau'r asesiad hyfywedd a'r trefniadau ariannu	d/b	DCWW
DCWW yn ffurfioli cymorth i ddatblygu i hyfywedd	Darparu sicrwydd i'r NMB a'r 3ydd parti am gefnogaeth DCWW (a'n rheoleiddiwr) i ddatblygu i'r cyfnod hyfywedd	d/b	DCWW
MOU Cam 1, Egwyddorion Ariannu, manylebau hyfywedd a'r RACI wedi eu llofnodi gan y ddwy ochr	Sicrhau bod pob parti yn glir a bod eu disgwyliadau yn gyson â rolau a chyfrifoldebau rhan 1	d/b	DCWW
Cadarnhau'r amserlen, y contractwr a'r strategaeth gaffael	I gadarnhau y dilynir llywodraethiant a phrosesau coffael y ddau barti, a sicrhau bod yna lwybr clir i asesu hyfywedd	d/b	DCWW
Cynhyrchu pecyn penodol ar gyfer Ased GTDG a'i rannu â'r partner CTW	I sicrhau manwl-gywirdeb o ran yr asedau at ddibenion yr asesiad[au] hyfywedd	DCWW	DCWW
Y contractwr CTW yn cyflawni asesiad hyfywedd desg (gan ddefnyddio manyleb hyfywedd DC lle bo modd)	Datblygu dealltwriaeth am botensial CTW yn y lleoliad penodedig	cynigiwr CTW	cynigiwr CTW
Cwblhau cam Hyfywedd y CTW	d/b	cynigiwr CTW	cynigiwr CTW
Cyfarfod adolygu deilliannau Cam 1 Penderfynu a ddylid symud i Gam 2	Sicrhau cynlluniau CTW hyder uchel yn unig symud ymlaen i gam dau, a diwygio'r categori o GTDG ar sail y canllawiau polisi diwygiedig a newidiadau i'r cynlluniau buddsoddi	d/b	DCWW a chynigiwr y CTW
Diwedd Cam 1			

ATODIAD 2B: DIAGRAM O'R BROSES GYFAN

CAM 0

Sgrinio a Chategoreiddio GTDG

Ni ddarperir ymrwymiad ar ddiwedd Cam 0.



CAM 1

Hyfywedd Desg

Ni roddir ymrwymiad ar ddiwedd Cam 1.



CAM 2

Hyfywedd y Safle

Ni roddir ymrwymiad ar ddiwedd Cam 2.



CAM 3

Dyluniad Amlinellol

DCWW yn cefnogi'r cynllun mewn egwyddor a bydd hyn yn caniatáu ar gyfer cysylltu FE DCWW â'r CTW trydydd parti. Mae datblygiad o 'mewn egwyddor' i gefnogaeth lawn yn dibynnu ar y dyluniad manwl, y cadarnhad rheoliadol, y cytundeb cyfreithiol ac ystadau/tir (cam 4).



CAM 4

Dyluniad a Thrwyddedau Manwl

Bydd cefnogaeth DCWW mewn egwyddor yn datblygu i ddarparu elfion at ddefnydd CTW y trydydd parti, neu i wrthod cefnogaeth yn seiliedig ar risgiau'r dyluniad neu newidiadau mewn anghenion. Os rhoddwyd sêl bendithi'r cynllun, bydd y ddwy ochr wedi llofnodi'r safonau dylunio, y costau, y thrwyddedau a'r materion Ystadau.



CAM 5

Adeiladu

Nawr bod yr ymrwymiad cyfan wedi cael ei lofnodi a'i gofnodi mewn Cyfomod Cyfyngol, bydd y drwydded wedi ei diweddarau a'r dechneg gweithredu gysylltiedig, y llywodraethiant a'r costau ychwanegol wedi eu cwblhau.



CAM 6

Gweithredu a Throsglwyddo

d/b Cyflawnwyd yr holl ymrwymadau ac fe'u dogfennwyd trwy'r camau blaenorol. Mae manylion y Rolau a'r Cyfrifoldebau trosglwyddo a gweithredu yn y ddogfennaeth gyfreithiol (MoU a Phenawdau'r Telerau).

ATODIAD 3: PROFFORMA CYDWEITHIO

Rhaid ffurfioli'r holl geisiadau i gydweithio mewn Profforma Cam 1. Mae'r Profforma ar Microsoft Forms. Dyma'r linc: <https://forms.office.com/e/bkEasMe4so>. Os ydych chi wedi argraffu'r Pecyn Canllaw ar Gydweithio, yna gallwch ddefnyddio'r Cod QR i fynd i'r Profforma.



ATODIAD 4: CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae'r tabl isod yn dangos egwyddorion ariannu cyffredinol pob CTW, yn dibynnu ar gategori'r GTDG. Trafodir y rhain yn fanylach, a rhoddir amcangyfrif o'r costau a'r dulliau llywodraethu, wrth i'ch cais a'r cydweithio ddatblygu.

PENNAWD	PECYNNAU PROFFIL Y SAFLE A SGRINIO P A SGINIO NBS O'R BRON (CAM 0)	ASTUDIAETH HYFYWEDD O'R GWLYPTIROEDD (CAMAU 1 A 2)	ASTUDIAETH HYFYWEDD O'R TROSLWUD-DIAD FE AR SIAMBR SAMPLO (CAM 3)	DYLUNIAD AMLINELLLOL O'R GWLYPTIROEDD (CAM 3)	DYLUNIAD AMLINELLLOL O'R TROSLWYDDIAD FE (CAM 3)	DYLUNIAD MANWLY GWLYPTIROEDD (CAM 4)	DYLUNIAD MANWLY TROSLWYDDIAD FE 'R SIAMBR SAMPLO (CAM 4)	PRYNU TIR (CAM 4)	ADEILADU'R GWLYPTIROEDD (CAM 5)	ADEILADU'R TROSLWYDDIAD FE (CAM 5)	
A	Mae/Bydd gan GTDG DCWW derfyn P.	100% DCWW (y cynllun cyfan wedi ei ariannu gan DCWW)									
B1	Terfyn GTDG P DCWW. Gostyngiad 3ydd parti pellach, mewn P. Ateb a rennir	100% DCWW	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd DCWW	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd DCWW	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd DCWW	50 /50	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd DCWW
B2	Llywiwr GTDG DCWW nad yw'n P. Gostyngiad 3ydd parti mewn P. Ateb a rennir	100% DCWW	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd DCWW	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd DCWW	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd DCWW	50 /50	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd DCWW
C	Llywiwr DCWW heb fod yn gysylltiedig â P. Gostyngiad 3ydd parti mewn P. Atebion ar wahân.	100% DCWW	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd 3ydd Parti	Cronfeydd 3ydd Parti
D	Nid oes unrhyw fuddsoddiad NEP ar y gweill gan DCWW.	100% DCWW	3ydd Parti	3ydd Parti	3ydd Parti	3ydd Parti	3ydd Parti	3ydd Parti	3ydd Parti	cyllid 3ydd Parti	cyllid 3ydd Parti